Rhaglen Gyflawn

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

Cyfarfod

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Dyddiad ac Amser

**1.30 y.h., DYDD GWENER, 5ED MAI, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

***(Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)***

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 28/4/23)

## BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

### Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Jason McLellan | Cyngor Sir Ddinbych |
| Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ian B. Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Charlie McCoubrey | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Dyfrig Siencyn | Cyngor Gwynedd |

### Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dafydd Evans | Grwp Llandrillo Menai |
| Maria Hinfelaar | Prifysgol Glyndwr |
| Yana Williams | Coleg Cambria |
| Askar Sheibani | Bwrdd Cyflenwi Busnes |
| Yr Athro Edmund Burke | Prifysgol Bangor |

### Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dylan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Rhun ap Gareth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Neal Cockerton | Cyngor Sir y Fflint |
| Dafydd Gibbard | Cyngor Gwynedd |
| Ian Bancroft | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Graham Boase | Cyngor Sir Ddinbych |

### Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dewi Morgan | Swyddog Adran 151 |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |
| Alwen Williams | Cyfarwyddwr Portffolio |
| Hedd Vaughan Evans | Pennaeth Gweithrediadau |
| Nia Medi Williams | Uwch Swyddog Gweithredol |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL — 4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynahliwyd ar 24 Mawrth, 2023 fel rhai cywir.

## 5. SEFYLLFA ALLDRO REFENIW A CHYFALAF Y BWRDD UCHELGAIS AR GYFER 2022-23 — 10 - 18

Dewi A.Morgan (Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletya – Swyddog Cyllid Statudol) a Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yr Awdurdod Lletya) i gyflwyno’r adroddiad.

## 6. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISGIAU CHWARTER 4 — 19 - 46

Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau) i gyflwyno’r adroddiad.

## 7. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - PROSES GYMERADWYO FBC WEDI'I MIREINIO — 47 - 50

Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau) i gyflwyno’r adroddiad.

## 8. ADNODDAU I'R SWYDDFA RHEOLI PORTFFOLIO — 51 - 54

Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio) a Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau) i gyflwyno’r adroddiad.

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU DYDD GWENER, 24 MAWRTH 2023

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo-Menai), Dr Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr) a Chris Drew (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion – Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych).

Swyddogion yn bresennol - Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol - Awdurdod Lletya), Iwan Evans (Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya), Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Awdurdod Lletya), Graham Williams (Rheolwr Prosiect Ynni a Datgarboneiddio Trafnidiaeth), Henry Aron (Rheolwr Rhaglen Ynni), Elgan Roberts (Rheolwr Prosiect Ynni), Robyn Lovelock (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth - Awdurdod Lletya).

Sylwedyddion – Wendy Boddington (Llywodraeth Cymru) a Gareth Ashman (Llywodraeth y DU).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), Yana Williams (Coleg Cambria), Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes) a'r Athro Edmund Burke (Prifysgol Bangor).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio) fuddiant personol yn eitem 6 oherwydd bod yr adroddiad yn ymwneud â'i secondiad fel Prif Weithredwr Dros Dro y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Roedd o'r farn bod y buddiant yn rhagfarnu, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 3 Chwefror, 2023 fel rhai cywir.

## 5. CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF 2023-24

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yr Awdurdod Lletya).

**PENDERFYNWYD**

**Cymeradwyo:-**

1. **Cyllideb Refeniw 2023/24 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.**
2. **Cyfraniadau ariannu sy'n cynnwys cyfraniadau partneriaid, cyfraniadau atodol awdurdodau lleol, a chyfraniadau llog partneriaid.**
3. **Cyllideb Gyfalaf ar gyfer y Cynllun Twf fel y'i cyflwynir yn Atodiad 2.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

1. Er mwyn gweithredu'n effeithiol o fewn y cyllid sydd ar gael, mae angen i gyllideb flynyddol gael ei chymeradwyo ar gyfer y Bwrdd Uchelgais.
2. Mae Atodiad 1 i'r adroddiad yn gosod y gyllideb arfaethedig yn ôl pennawd gwariant a'r ffrydiau ariannu cyfatebol ar gyfer y flwyddyn.
3. Mae Atodiad 2 yn gosod y gyllideb gyfalaf arfaethedig fesul prosiect a'r cyllid cyfalaf cyfatebol ar gyfer y Cynllun Twf o £240m.
4. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio i wario arian yn unol â'r gyllideb gymeradwy.

**6. CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD (CBC) - YMESTYN SECONDIAD RHAN AMSER CYFARWYDDWR PORTFFOLIO, UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU, FEL PRIF WEITHREDWR DROS DRO Y CBC**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dylan Williams (Prif Weithredwr Arweiniol Cynghorau Gogledd Cymru ar gyfer y Bwrdd Uchelgais).

**PENDERFYNWYD**

1. **Bod y Bwrdd Uchelgais yn cefnogi ymestyn y trefniant i ryddhau amser y Cyfarwyddwr Portffolio am ddau ddiwrnod yr wythnos tan 30 Medi, 2023 er mwyn parhau i ymgymryd â rôl y Prif Weithredwr ar sail dros dro.**
2. **Bod yr holl gyflogaeth a'r costau cysylltiedig yn parhau i gael eu hysgwyddo gan CBC y Gogledd.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

1. Mae'r trefniadau a argymhellir yn cyd-fynd gyda phenderfyniad mewn egwyddor y 6 Cyngor i drosglwyddo swyddogaethau Uchelgais Gogledd Cymru i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol.
2. Drwy gyflawni'r rôl Prif Weithredwr y CBC, bydd Cyfarwyddwr Portffolio yn cynorthwyo rhanbarth y Gogledd i ddatblygu CBC effeithiol, tra bod mewn sefyllfa unigryw i sicrhau bod buddiannau Uchelgais Gogledd Cymru yn cael eu diogelu yn y flwyddyn yma o drawsnewid.

**TRAFODAETH**

Awgrymwyd y byddai'n fuddiol petai'r aelodau hynny o'r Bwrdd nad ydynt yn rhan o lywodraeth leol yn cael eu briffio ar yr hyn sy'n digwydd o ran y Cyd-bwyllgor Corfforedig, a goblygiadau hynny i'r Bwrdd. Mewn ymateb, nododd y Cadeirydd ei bod yn bwysig bod pawb yn cael dealltwriaeth o'r hyn sy'n mynd ymlaen, ac y gellid trefnu bod gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda phawb yn y ffordd fwyaf effeithiol. Nododd y Swyddog Monitro fod y

gwaith o greu cynllun ar gyfer y broses yn cychwyn rŵan, ac y byddai yna gyfathrebu gyda'r colegau, ayb, ar hyd y daith.

Nodwyd bod ymestyn secondiad y Cyfarwyddwr Portffolio fel Prif Weithredwr Dros Dro y CBC yn gam synhwyrol a phragmatig yn yr amgylchiadau, ond bod angen dod i drefniant mwy parhaol cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib'.

## 7. YNNI LLEOL BLAENGAR – ACHOS BUSNES AMLINELLOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn) ychydig eiriau ar y cychwyn. Nododd:-

- Bod y prosiect cyffrous hwn yn rhan o gais gwreiddiol y Bwrdd, a'i bod yn braf adrodd fod y cynllun wedi aeddfedu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, a'n bod wedi dod â llawer o'n rhanddeiliaid gyda ni ar y siwrnai.
- Bod hwn yn gynllun er mwyn cefnogi'r rhanbarth cyfan, lle'r oedd yna lefydd gweigion o ran ariannu, cefnogi ynni blaengar yn y gymuned, a chynlluniau mwy uchelgeisiol o bosib' hefyd.
- Y gobeithid bod yr aelodau hynny nad ydynt ar yr Bwrdd Rhaglen Ynni yn gallu gweld bod yna weledigaeth yma, bod yna bryniant i mewn gan nifer o bartneriaid, a hefyd bod cyfle yma i wneud gwahaniaeth ar y lefel gymunedol ac ar y lefel ranbarthol.
- Y derbynnid bod yna rai risgiau ynghlwm â'r prosiect, ond er mwyn gosod uchelgais, bod rhaid cael ychydig o risg hefyd.

Yna manylodd Henry Aron (Rheolwr Rhaglen Ynni) ar gyd-destun a hanes y prosiect, gan ddarparu amlinelliad o'r broses sicrwydd, a cyflwynodd Elgan Roberts (Rheolwr Prosiect Ynni) fwy o fanylion ynglŷn â'r prosiect.

**PENDERFYNWYD**

1. **Bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect Ynni Lleol Blaengar ac, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraethau Cymru a'r DU o'r broses sicrwydd yr ymgymerwyd â hi a bod y Swyddfa Rheoli Portffolio yn rhoi sylw i'r materion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, bod cais Adran 7 yn cael ei wneud i baratoi Achos Busnes Llawn i'r Bwrdd ei ystyried yn dilyn cwblhau'r broses gaffael a'r broses ganiatâd.**
2. **Bod y Bwrdd yn dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, gymeradwyaeth derfynol o'r fanyleb gaffael a'r meini prawf gwerth cymdeithasol cyn i ariannwr y prosiect ddechrau caffael.**
3. **Bod y Bwrdd yn nodi y bydd y trefniadau ariannol terfynol ar gyfer y prosiect yn cael eu cytuno ar y cam Achos Busnes Llawn ac yn awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro'r Awdurdod Lletya i gytuno ar y telerau drafft i'w cymeradwyo gan y Bwrdd.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i Achos Busnes Amlinellol (OBC) y prosiect Ynni Lleol Blaengar.

**TRAFODAETH**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Tîm am y gwaith cefndirol hynod fanwl, a nododd fod hwn yn brosiect cyffrous iawn fydd yn cyffwrdd yn uniongyrchol â'n cymunedau ar draws y Gogledd yn ogystal â bod yn weledol i'n trigolion.

Holwyd pam bod yr adroddiad yn cyfeirio at greu 156-193 o swyddi newydd yng Ngogledd Cymru yn gysylltiedig â chyflawni a gweithredu datrysiadau ynni glân, gan i ni nodi'n flaenorol ein dymuniad i greu 2,400 o swyddi newydd drwy'r broses hon. Mewn ymateb, eglurwyd:-

- Bod y swyddi yn yr Achos Busnes Amlinellol yn seiliedig ar yr hyn a gafodd ei fodelu yn achos busnes y Rhaglen, felly roedd y targedau hynny wedi'u cario ymlaen ac yn cynnwys swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol yn y gadwyn gyflenwi.
- Bod y modelu economaidd ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol yn seiliedig ar brosiectau tebyg mewn rhannau eraill o'r DU. Roedd yna amrediad uwch o niferoedd swyddi, ac roedd rhai o'r niferoedd o brosiectau eraill yn uwch na'r amrediad a roddwyd yn y papur, ond edrychwyd ar groesdoriad o brosiectau tebyg, rhai prosiectau ynni mawr a rhai prosiectau llai, e.e. gosod paneli solar a phympiau gwres.
- Mai un o'r pwyntiau allweddol wrth amcangyfrif nifer y swyddi ynghlwm â'r prosiect hwn, gan ein bod yn sefydlu cronfa, yw na allwn ond modelu a dyfalu orau y gallwn ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael o ran faint o swyddi y credwn y gallwn eu cyflenwi.
- Pan fyddai'r gronfa yn cael ei lansio, y byddai yna broses ymgeisio fydd yn asesu ceisiadau yn erbyn meini prawf, ac un o'r meini prawf allweddol y byddwn yn ddefnyddio yw'r gallu i greu effaith ar ffurf swyddi, yn ogystal â chyflawni yn erbyn yr amcanion gwariant eraill o fuddsoddiad ac arbedion carbon hefyd.

Holwyd a oedd y Bwrdd Cyflenwi Busnes wedi bod yn rhan o'r gwaith o siapio'r cynnig oedd gerbron. Hefyd, pwysleisiwyd yr angen i ymgysylltu gyda'r prifysgolion a'r colegau addysg bellach yn ystod y cam nesaf, gan fod peth o hyn yn ymwneud â chefnogi busnesau o safbwynt datblygu sgiliau, ail-hyfforddi ayb. Mewn ymateb, eglurwyd:-

- Bod y prosiect wedi bod gerbron y Bwrdd Cyflenwi Busnes, a bod nifer o'r sefydliadau sy'n cynrychioli'r sector breifat wedi bod yn bresennol mewn gweithdai a drefnwyd, er enghraifft, Cyngor Busnes Gogledd Cymru Merswy Dyfrdwy. Hefyd, siaradwyd gyda llawer o'r grwpiau cefnogi busnes o fewn awdurdodau lleol a dosbarthwyd holiaduron i fusnesau drwyddynt.
- Bod y sector breifat wedi cyfrannu at siapio ein strategaeth, a bwriedid gwneud rhagor o ymgysylltu gyda'r sector wrth symud ymlaen. Hefyd, o ran yr ymgysylltu gyda'r sefydliadau addysgol, gwahoddwyd y cynrychiolwyr ar ein Bwrdd i'r gweithdai, ac roedd hynny wedi bod o gymorth o ran siapio'r gwaith.
- Gan na fyddwn yn rheoli llawer o'r swyddi uniongyrchol, dymunid adeiladu cynllun sgiliau cysylltiedig â'n Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn ystod cam nesaf y prosiect, er mwyn ystyried sut y gallwn annog cymaint â phosib' o'r swyddi anuniongyrchol hynny i gael eu sicrhau yn lleol, a sut y gallwn gefnogi'r gadwyn gyflenwi a sicrhau bod gwybodaeth am gyfleoedd ar gael yn lleol.

O ran y gadwyn gyflenwi, holwyd sut y gellir sicrhau mai cwmnïau o Ogledd Cymru sy'n gwneud y gwaith. Mewn ymateb, eglurwyd:-

- Ein bod yn dymuno gweithio'n agos gyda'n hymgynghorydd cronfa ar hyn, yn ogystal ag yn nhermau sut rydym yn adeiladu hynny i mewn i'r broses ymgeisio, asesu ceisiadau sy'n dod i mewn, ag o le maent yn ffynonellu deunyddiau ac yn ffynonellu arbenigedd i'w cynorthwyo gyda'u prosiectau.

- Y cyflawnwyd cryn waith gydag Adra a Grŵp Llandrillo Menai yn nhermau ymgysylltu a deall beth sy'n digwydd gyda'u hwb ym Mhenygroes, a hyderid y gellid cefnogi mwy o brosiectau tebyg, fydd o gymorth i gryfhau'r gadwyn gyflenwi yn lleol.
- O safbwynt cefnogaeth, roeddem yn arddel hyblygrwydd gyda'n cronfa hefyd. Yn hytrach na chefnogi cwmnïau i osod datrysiadau datgarboneiddio yn unig, edrychwyd hefyd ar ffyrdd o gefnogi cwmnïau cadwyn gyflenwi sy'n cynnig y datrysiadau hynny.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda Banc Datblygu Cymru gan fod eu harian yn cefnogi'r math o fusnesau y gallem fod yn eu targedu, megis i roi cymorth i gadwyn gyflenwi ategu'r hyn maent yn ei wneud.

Holwyd pam bod y targed arian cyfatebol fel cyfartaledd ar draws y gronfa ond 75%. Mewn ymateb, eglurwyd:-

- Bod y ffigwr hwn yn deillio o'r targed gwreiddiol o'r achos busnes rhaglen. Gan hynny, byddem yn buddsoddi'r £25m, ac yn dymuno gweld buddsoddiad yn ei gyfanrwydd o ychydig dros £100m.
- Bod ein gwaith ymchwil i wahanol fathau o brosiectau yn awgrymu y gellid disgwyl tua 50% o gyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau trydydd sector, 60%-70%, neu ychydig mwy na hynny, o bosib', ar gyfer prosiectau sector preifat, ac roedd yn debygol y gellid trosoli tipyn mwy na hynny ar gyfer yr Is-gronfa Prosiectau Mawr.
- Roedd yr ansicrwydd ar hyn o bryd yn gysylltiedig â beth fydd y galw am yr amrywiol is-gronfeydd a lle mae gennym ddyraniadau sicr ar gyfer yr is-gronfeydd hynny, ac ar hyn o bryd, roedd hynny'n cwrdd yn daclus â'r 75%. Fodd bynnag, pe gwelid bod yna fwy o alw ar un is-gronfa nag un arall wrth i amser symud yn ei flaen, byddai'n rhaid adolygu'r sefyllfa.
- Byddem yn edrych yn barhaus am ffynonellau ariannu eraill ar gyfer ymgeiswyr ac yn ystyried oes modd partneru gydag, e.e. Banc Datblygu Cymru, ynghyd ag unrhyw gyfleoedd ariannu eraill er mwyn trosoli cymaint â phosib'.
- Bod yna ffyrdd gwahanol o sicrhau cyllid cyfatebol o fewn y prosiect hwn, ac roedd y strwythur cronfa ymbarél yn cael ei gynnig oherwydd y potensial o ddod â buddsoddiadau i mewn ar lefel y gronfa, yn ogystal ag ar lefel y prosiect, a dyna pam bod y swyddogion yn siarad gyda buddsoddwyr eraill.
- Cafwyd trafodaethau gyda rhai cronfeydd pensiwn llywodraeth leol yn ogystal er mwyn gweld a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn buddsoddi ar lefel cronfa neu is-gronfa, ac roedd potensial o ddatblygu cyllideb gyfatebol ar lefel prosiect yn ogystal.

Holwyd pam na chynhwyswyd datblygwyr preifat ar y rhestr o ran-ddeiliad sy'n rhan o'r asesiad effaith a'r broses ymgynghori. Mewn ymateb, eglurwyd nad oedd nodi 'Cymdeithasau tai cymdeithasol' yn y rhestr rhanddeiliaid yn golygu bod datblygwyr preifat wedi'u heithrio, a'u bod wedi'u cynnwys yn y grŵp 'busnesau'.

Gofynnwyd am esboniad pam fod y Gronfa Ymbarél o £25m wedi'i rhannu i 3 is-gronfa o £5m, £8m a £12m, ac awgrymwyd y byddai'n well arddel mwy o hyblygrwydd a chyfleu'r neges bod yna gyfanswm o £25m ar gael ar gyfer ceisiadau. Mewn ymateb, eglurwyd:-

- Bod y dyraniadau yn ddangosol ar hyn o bryd a byddent yn cael eu hadolygu unwaith y bydd cynghorydd y gronfa wedi'i benodi. Mae'r dyraniadau yn seiliedig ar waith modelu lle bu i ni asesu gwahanol ddyraniadau yn ôl yr effaith y byddent yn greu.
- Y crëwyd y gwahanol is-gronfeydd gan ein bod yn awyddus i glustnodi swm dangosol, dros dro ar gyfer pob is-gronfa. Roedd hefyd yn caniatáu i ni gael strategaeth fuddsoddi wahanol ar gyfer pob is-gronfa yn nhermau'r arian cyfatebol a geisir ac efallai'r deilliannau disgwyliedig o amrywiol brosiectau.

- Edrychwyd ar ambell senario gwahanol o ran dyraniadau ar gyfer pob is-gronfa, a hwn oedd y dyraniad oedd yn rhoi'r canlyniad gorau yn erbyn yr amcanion gwario, yn arbennig yn nhermau swyddi a throsoli buddsoddiadau.
- Pe byddem yn newid y dyraniad yma ar ôl rhyw bwynt, efallai y byddai'n rhaid adolygu rhai o'r targedau hynny, ond dyma sut roedd wedi'i osod ar hyn o bryd, ac roedd rhywfaint ohono'n seiliedig ar yr adborth o'r holiaduron a ddosbarthwyd.
- Daeth tua traean yr ymatebion o'r gymuned ynni a'r trydydd sector a tua deuparth o'r sector preifat, felly roedd yn amlwg bod yna ychydig mwy o alw o'r sector preifat, sydd i'w ddisgwyl.
- Dymunid bod yn hyblyg gyda dyluniad y benthyciad a gellid newid, nid yn unig y buddsoddiad, ond y strategaeth fuddsoddi hefyd, os nad ydym yn defnyddio'r cronfeydd mor sydyn ag y byddem yn gobeithio a'n bod angen gwneud rhai newidiadau er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael ei ddosbarthu.

Nododd y Cynghorydd Llinos Medi Huws:-

- Ei bod yn bwysig nodi bod yr Bwrdd Rhaglen Ynni wedi trafod y mater hwn yn hynod fanwl ac wedi ceisio darganfod lle mae yna fylchau, lle mae angen cryfhau a hefyd lle mae gennym hyblygrwydd.
- Bod y Bwrdd Rhaglen wedi trafod rhaniad y gronfa i 3 is-gronfa, ac yn parhau o'r farn bod angen pennu rhyw fath o ffin i gychwyn rhag i ni beidio cyflawni'r nod, ond wedi nodi hefyd bod yr hyblygrwydd yna petai angen.

Eglurwyd ymhellach:-

- Mai'r bwriad ar hyn o bryd yw pwysleisio'r angen am hyblygrwydd, a bod angen adeiladu hyn i mewn i'r ffordd mae'r gronfa yn cael ei rheoli.
- Unwaith y bydd y gronfa wedi'i lansio, byddwn yn monitro perfformiad ac yn gwneud newidiadau os oes angen.
- Bod y cronfeydd sy'n bodoli eisoes a thystiolaeth yn awgrymu mai'r dadansoddiad yma fydd yn cael yr effaith fwyaf, ond mae'n rhaid i ni barhau i fod yn hyblyg.
- Y cam nesaf fyddai caffael ymgynghorydd cronfa arbenigol i'n cynorthwyo i ddatblygu'r strategaeth fuddsoddi, fydd yn dod yn ôl i'r Bwrdd fel rhan o'r Achos Busnes Llawn. Hefyd, fel rhan o'r broses honno, bwriedid ail-ymweld â'r dyraniad er mwyn sicrhau ei fod yn gywir cyn y lansiad cychwynnol.

Nododd y Cadeirydd fod yr argymhelliad ar hyn o bryd ar sail tystiolaeth o'r holl waith ymchwil sydd wedi digwydd yn y cefndir, a'r ymgynghori, ond mai cam yn unig ar y daith oedd mabwysiadu'r Achos Busnes Amlinellol. Fel rhan o'r Achos Busnes Llawn, byddai yna waith ychwanegol llawer mwy manwl yn dod yn ôl i'r Bwrdd, ac yn cymryd i ystyriaeth y pwyntiau a godwyd yn y cyfarfod hwn, ynghyd â chyngor yr ymgynghorydd arbenigol.

Nododd y Cynghorydd Llinos Medi Huws fod hwn yn brosiect gwahanol a heriol iawn, ac y dymunai ddiolch i Henry Aron (Rheolwr Rhaglen Ynni) ac Elgan Roberts (Rheolwr Prosiect Ynni) am eu holl gwaith, a hefyd i'r holl bartneriaid sydd wedi bod yn rhan o'r broses.

Nododd y Cadeirydd ei bod yn amlwg bod yna waith cefndir sylweddol iawn wedi digwydd, ac ategodd yntau y diolchiadau i'r swyddogion.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 11.00 y.b.

**CADEIRYDD**

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**05/05/2023**

**Teitl:** Sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2022/23.

**Awdur:** Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletya (Swyddog Cyllid Statudol)

Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yr Awdurdod Lletya

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu sefyllfa alldro terfynol ar gyfer refeniw a chyfalaf yn 2022/23 i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

**2. Y Penderfyniad a Geisir**

**Gofynnir i'r Bwrdd:-**

**2.1 Nodi a derbyn adroddiad alldro refeniw y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2022/23 (Atodiad 1), cronfeydd y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 2) a'r Adolygiad Cyfalaf Diwedd Blwyddyn ar 31 Mawrth 2023 (Atodiad 3).**

**2.2 Gymeradwyo i'r tanwariant refeniw o £148,000 ar gyfer 2022/23 gael ei drosglwyddo i gyllideb 2023/24, gyda £18,000 ohono yn cael ei ychwanegu at y pennawd Bwrdd Cyflawni Busnes a £130,000 gael ei ychwanegu at y pennawd Prosiectau.**

**3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad**

3.1 Hysbysu'r Bwrdd Uchelgais am ei sefyllfa ariannol ar gyfer refeniw a chyfalaf yn 2022/23.

**4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

4.1 Caiff y Bwrdd Uchelgais ei ystyried yn "gorff perthnasol mwy" yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd). Golyga hyn y bydd Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig yn cael ei gynhyrchu ar gyfer 2022/23 a'i gyflwyno i'r Bwrdd maes o law.

**Refeniw**

**5. Gwariant ac incwm yn 2022/23**

5.1 Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad manwl o'r gwariant a'r incwm gwirioneddol fesul pennawd yn erbyn ei gyllideb yn 2022/23.

5.2 Rhagwelwyd tanwariant o £189,048 yn adolygiad mis Awst a thanwariant pellach o £127,078 yn adolygiad mis Rhagfyr, ac ar y ddau achlysur, cymeradwyodd y Bwrdd i swm llai o'r Grant Bargen Twf Gogledd Cymru gael ei ddefnyddio i ariannu'r gwariant refeniw i adael sefyllfa niwtral am y flwyddyn.

5.3 Mae'r sefyllfa alldro net terfynol ar gyfer 2022/23 yn dangos tanwariant pellach o £147,822, ac mae hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad yn y gwariant ar nifer o'r penawdau cyllideb. Mae hyn yn golygu y bydd angen swm llai o £286,052 o'r Grant Bargen Twf i adael safle niwtral am y flwyddyn (o gymharu â'r gyllideb wreiddiol o £750,000 a'r amcangyfrif o £433,874 yn adolygiad mis Rhagfyr), a gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo i'r tanwariant o £147,822 ar gyfer 2022/23 gael ei ychwanegu at gyllideb 2023/24.

Swyddfa Rheoli Portffolio

5.4 Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £92,433. Mae'r tanwariant hwn wedi cynyddu £61,348 ers yr adolygiad Rhagfyr, yn bennaf yn sgil tanwariant pellach ar amrywiol benawdau cyllideb.

Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol

5.5 Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £54,581 o ganlyniad i ostyngiad yn y gwariant net ar bennawd gwasanaethau cefnogol y Corff Atebol (yr awdurdod lletya).

Cyd-bwyllgor

5.6 Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £39,091, sy’n sgil tanwariant ar y penawdau Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol, y Ffioedd Cyllidol Allanol a'r Bwrdd Cyflawni Busnes. Mae'r Bwrdd Cyflawni Busnes yn y broses o dendro contract, ond mae'r gwaith wedi llithro i ran gyntaf 2023/24. Felly, gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo i'r tanwariant o £18,000 gael ei ychwanegu at eu dyraniad yn 2023/24, er mwyn rhoi cyfanswm cyllideb o £33,000.

Prosiectau

5.7 Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £104,790 ac mae hyn yn sgil llithriad ar y rhaglen gyfalaf. Mae'r pennawd Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau yn dangos gorwariant o £73,156, ond mae £42,700 o hyn yn cael ei ariannu o’r gronfa wrth gefn y prosiectau a grëwyd yn 2021/22 a gellir gweld y trosglwyddiad o’r gronfa wrth gefn yn y rhan incwm, sy'n rhoi tanwariant net o £147,490. Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo i £130,000 o'r tanwariant hwn gael ei ychwanegu at eu dyraniad yn 2023/24 i roi cyfanswm cyllideb o £585,000 for Projects.

Cynlluniau grantiau

5.8 Ariennir y gorwariant o £207,738 ar y pennawd hwn o'r Gronfa Adfywio Cymunedol, grant arolwg cwmpas ffonau symudol a'r Grant Ynni Lleol a ddangosir o dan y rhan incwm.

Trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn

5.9 Mae'r rhan trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn, yn dangos cyfraniadau llog y partneriaid ar gyfer 2023/24 (£216,370) ynghyd â'r llog ar y rhain ac ar y grant cyfalaf (£752,367) yn cael eu trosglwyddo i gronfa Llog wrth gefn benodol i'w neilltuo i ariannu cost benthyca yn y dyfodol.

Cyfraniadau Ariannu

5.10 Mae'r prif ffrydiau Incwm ar gyfer 2022/23 yn cynnwys cyfraniadau partneriaid, Grant ESF, dyraniad refeniw Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru a grantiau penodol eraill a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

5.11 Yn dilyn adolygiad mis Rhagfyr, rhagwelwyd y byddai angen £433,874 o ddyraniad refeniw grant Bargen Twf Gogledd Cymru yn ystod 2022/23, ond oherwydd gwariant is na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, dim ond £286,052 oedd ei angen i ariannu'r gwariant refeniw yn ystod y flwyddyn. Er bod grant Bargen Twf Gogledd Cymru yn grant cyfalaf, mae'r Bwrdd wedi defnyddio'r un hyblygrwydd ag awdurdodau lleol yn y ffordd maent yn rheoli eu cyllid cyfalaf, gyda Cyngor Gwynedd wedi dyrannu £286,052 yn erbyn eu prosiectau cyfalaf gan ryddhau gwerth refeniw cyfatebol i'r Bwrdd Uchelgais i ariannu ei wariant refeniw.

Cronfeydd Wrth Gefn y Bwrdd Uchelgais

5.12 Mae Atodiad 2 yn dangos y symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn, a'r balansau ar 31 Mawrth 2023.

5.13 Cyfanswm balans y gronfa wrth gefn a glustnodwyd, ar 31 Mawrth 2023, oedd £552,027. Cymeradwyodd y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2023, i £274,100 o'r gronfa yma gael ei ddefnyddio fel rhan o gyllideb 2023/24.

5.14 Balans y gronfa prosiectau ar 31 Mawrth 2023 oedd £152,300, gyda £42,700 yn cael ei ddefnyddio yn y flwyddyn i ariannu rhaglen hyfforddi Dysgu â Chymorth mewn Asesiadau Allyriadau gydag ymgynghorydd allanol.

5.15 Balans y gronfa llog ar 31 Mawrth 2023 oedd £1,667,882, ac mae hwn wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd y llog a dderbyniwyd ar y Grant Bargen Twf yn ystod y flwyddyn. Mae'r gronfa yma wedi ei neilltuo i ariannu costau benthyca yn y dyfodol.

**Cyfalaf**

5.16 Mae Atodiad 3 yn dangos adolygiad diwedd blwyddyn rhaglen Gyfalaf y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2022/23. Mae hwn yn debyg i'r gyllideb Cyfalaf a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth, a'r unig wahaniaeth yw bod y tanwariant refeniw o

£147,822 wedi golygu bod y defnydd o'r 1.5% grant Bargen Twf wedi gostwng o £0.43m i £0.28m yn 2022/23 ac wedi cynyddu o £0.87m i £1.02m yn 2023/24.

**6. Goblygiadau Cyfreithiol**

6.1 Noda Adran 12 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 bod cyd-bwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 y Ddeddf yn mynnu bod y cyrff hyn yn cynnal cyfrifon sy'n ddarostyngedig i archwiliad gan archwilydd allanol a gymeradwyir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

6.2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) yn mynnu bod yr holl Gyd-bwyllgorau yn paratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Lle mae'r incwm neu wariant blynyddol dros £2.5m, pennir bod y cyd-bwyllgor yn "gorff perthnasol mwy" a bydd angen paratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

**7. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

7.1 Cyflwynwyd Atodiad 1, Atodiad 2 ac Atodiad 3, ynghyd â chrynodeb o gynnwys yr adroddiad hwn, i'r Bwrdd Portffolio ar 21 Ebrill 2023.

**8. Atodiadau**

Atodiad 1 - Sefyllfa Alldro Refeniw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2022/23.

Atodiad 2 - Cronfeydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Atodiad 3 - Rhaglen Gyfalaf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2022/23 - Adolygiad Diwedd Blwyddyn (Mawrth 2023)

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

i. **Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:**

Awdur yr adroddiad hwn.

**Sefyllfa Alldro Refeniw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2022/23** **Atodiad 1**

| Gwariant | Cyllideb Sylfaenol (£) | Trosglwyddiadau unwaith ac am byth (£) | Cyfanswm Cyllideb (£) | Sefyllfa terfynol 2022/23 (£) | Gor / (Tan)wariant (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddfa Rheoli Portffolio** | | | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 1,318,060 | 0 | 1,318,060 | 1,329,023 | 10,963 |
| Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr | 570 | 0 | 570 | 9,580 | 9,010 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 10,000 | 0 | 10,000 | 6,959 | (3,041) |
| Hyfforddiant | 12,500 | 12,500 | 25,000 | 14,265 | (10,735) |
| Ymgysylltu, Digwyddiadau a Chyfarfodydd | 12,500 | 0 | 12,500 | 5,483 | (7,017) |
| Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus | 35,000 | 22,500 | 57,500 | 32,997 | (24,503) |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 10,000 | 0 | 10,000 | 23,297 | 13,297 |
| Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol | 42,290 | 0 | 42,290 | 14,075 | (28,215) |
| Eiddo | 30,000 | 0 | 30,000 | 30,264 | 264 |
| Arfarniad ESF | 0 | 40,000 | 40,000 | 13,633 | (26,367) |
| Datblygu Portffolio a Rhaglenni | 40,000 | 10,000 | 50,000 | 23,911 | (26,089) |
| **Cyfanswm Swyddfa Rheoli Portffolio** | **1,510,920** | **85,000** | **1,595,920** | **1,503,487** | **(92,433)** |
| **Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | | | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 104,840 | 0 | 104,840 | 59,044 | (45,796) |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 26,530 | 0 | 26,530 | 27,220 | 690 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 38,160 | 0 | 38,160 | 35,890 | (2,270) |
| Technoleg Gwybodaeth | 24,850 | 0 | 24,850 | 17,646 | (7,204) |
| Yswiriant | 2,980 | 0 | 2,980 | 2,979 | (1) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | **197,360** | **0** | **197,360** | **142,779** | **(54,581)** |
| **Cyd-bwyllgor** | | | | | |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 18,000 | 0 | 18,000 | 0 | (18,000) |
| Ffioedd Cyllidol Allanol | 10,000 | 0 | 10,000 | 2,400 | (7,600) |
| Ffi Archwilio Allanol | 11,400 | 0 | 11,400 | 15,923 | 4,523 |
| Bwrdd Cyflawni Busnes | 20,000 | 0 | 20,000 | 1,986 | (18,014) |
| **Cyfanswm Cyd-bwyllgor** | **59,400** | **0** | **59,400** | **20,309** | **(39,091)** |
| **Prosiectau** | | | | | |
| Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau | 350,000 | 0 | 350,000 | 423,156 | 73,156 |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 100,000 | 0 | 100,000 | 35,423 | (64,577) |
| Cefnogaeth Cyllidol Allanol | 18,000 | 0 | 18,000 | 0 | (18,000) |
| Cefnogaeth Caffael Allanol | 50,000 | 0 | 50,000 | 2,492 | (47,508) |
| Sicrwydd | 80,000 | 0 | 80,000 | 32,139 | (47,861) |
| **Cyfanswm Prosiectau** | **598,000** | **0** | **598,000** | **493,210** | **(104,790)** |
| **Cynlluniau grantiau** | | | | | |
| Prosiectau Cronfa Adfywio Cymunedol | 241,270 | 0 | 241,270 | 241,339 | 69 |
| Arolwg cwmpas ffonau symudol | 0 | 0 | 0 | 14,694 | 14,694 |
| Gwariant gweithwyr - Prosiect Ynni Ardal Leol | 0 | 0 | 0 | 30,963 | 30,963 |
| Cynlluniau Ynni Ardal Leol | 0 | 0 | 0 | 162,012 | 162,012 |
| **Cyfanswm Cynlluniau grantiau** | **241,270** | **0** | **241,270** | **449,008** | **207,738** |
| **Trosglwyddiadau i gronfeydd** | | | | | |
| Cyfraniadau llog y Partneriaid | 264,600 | 0 | 264,600 | 216,370 | (48,230) |
| Llog ar falansau 2022/23 | 0 | 0 | 0 | 752,367 | 752,367 |
| **Cyfanswm trosglwyddiadau i gronfeydd** | **264,600** | **0** | **264,600** | **968,737** | **704,137** |
| **Cyfanswm Gwariant** | **2,871,550** | **85,000** | **2,956,550** | **3,577,530** | **620,980** |

Sefyllfa Alldro Refeniw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2022/23 — Atodiad 1

| | Cyllideb Sylfaenol | Trosglwyddiadau unwaith ac am byth | Cyfanswm Cyllideb | Sefyllfa terfynol 2022/23 | Gor / (Tan)wariant |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| **Cyfraniadau Ariannu** | | | | | |
| **Cyfraniadau Partneriaid** | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (52,000) | 0 | (52,000) | (52,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (52,000) | 0 | (52,000) | (52,000) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (52,000) | 0 | (52,000) | (52,000) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (52,000) | 0 | (52,000) | (52,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (52,000) | 0 | (52,000) | (52,000) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (52,000) | 0 | (52,000) | (52,000) | 0 |
| Prifysgol Bangor | (26,000) | 0 | (26,000) | (26,000) | 0 |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | (26,000) | 0 | (26,000) | (26,000) | 0 |
| Coleg Cambria | (26,000) | 0 | (26,000) | (26,000) | 0 |
| Grŵp Llandrillo Menai | (26,000) | 0 | (26,000) | (26,000) | 0 |
| **Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol** | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (40,000) | 0 | (40,000) | (40,000) | 0 |
| **Cyfraniadau llog y Partneriaid** | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (31,770) | 0 | (31,770) | (31,770) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (25,730) | 0 | (25,730) | (25,730) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (42,200) | 0 | (42,200) | (42,200) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (33,610) | 0 | (33,610) | (33,610) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (18,720) | 0 | (18,720) | (18,720) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (36,280) | 0 | (36,280) | (36,280) | 0 |
| Prifysgol Bangor | (36,650) | 0 | (36,650) | (36,650) | 0 |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | (13,610) | 0 | (13,610) | (13,610) | 0 |
| Coleg Cambria | (13,560) | 0 | (13,560) | 34,670 | 48,230 |
| Grŵp Llandrillo Menai | (12,470) | 0 | (12,470) | (12,470) | 0 |
| **Eraill** | | | | | |
| Cyllid Blaenoriaeth 5 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd | (959,680) | 0 | (959,680) | (987,196) | (27,516) |
| Grant Bargen Twf Gogledd Cymru (Gwynedd) | (750,000) | 0 | (750,000) | (433,874) | 316,126 |
| Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd | 0 | 0 | 0 | (70,345) | (70,345) |
| Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi | 0 | (85,000) | (85,000) | (127,700) | (42,700) |
| Cronfa Adfywio Cymunedol | (241,270) | 0 | (241,270) | (241,339) | (69) |
| Grant Arolwg cwmpas ffonau symudol | 0 | 0 | 0 | (14,694) | (14,694) |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG | 0 | 0 | 0 | (14,619) | (14,619) |
| Grant Ynni Lleol | 0 | 0 | 0 | (201,729) | (201,729) |
| Grant Adran Gwaith a Phensiynau | 0 | 0 | 0 | (854) | (854) |
| Llog | 0 | 0 | 0 | (760,632) | (760,632) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(2,871,550)** | **(85,000)** | **(2,956,550)** | **(3,725,352)** | **(768,802)** |
| **Gor / (Tan) wariant Net** | **0** | **0** | **0** | **(147,822)** | **(147,822)** |

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2022** | **(637,027)** |
| Dyraniad Cyllideb 2022/23 | 85,000 |
| **Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2023** | **(552,027)** |

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa Prosiectau ar 31 Mawrth 2022** | **(195,000)** |
| Gwariant 2022/23 | 42,700 |
| **Cyfanswm y gronfa Prosiectau ar 31 Mawrth 2023** | **(152,300)** |

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gronfa llog ar 31 Mawrth 2022** | **(699,145)** |
| Cyfraniadau llog y partneriaid 2022/23 | (216,370) |
| Llog ar falansau 2022/23 | (752,367) |
| **Cyfanswm y gronfa llog ar 31 Mawrth 2023** | **(1,667,882)** |

**Rhaglen Gyfalaf BUEGC 2022/23 - Adolygiad Diwedd Blwyddyn (Mawrth 2023)** **Atodiad 3**

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | 2021/22 (£m) | 2022/23 (£m) | 2023/24 (£m) | 2024/25 (£m) | 2025/26 (£m) | 2026/27 (£m) | 2027/28 (£m) | 2028/29 (£m) | 2029/30 (£m) | 2030/31 (£m) | 2031/32 (£m) | 2032/33 (£m) | 2033/34 (£m) | 2034/35 (£m) | Cyfanswm (£m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 0.12 | 1.66 | 0.39 | 0.79 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Digidol | Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.50 | 4.00 | 2.00 | 2.37 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| Digidol | Campws Cysylltiedig | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 | 10.10 | 4.93 | 1.71 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 20.68 |
| Digidol | Cysylltu ychydig ganrannau olaf | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 1.21 | 1.72 | 1.24 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.17 |
| Ynni carbon isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.33 | 4.44 | 1.10 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| Ynni carbon isel | Egni (Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel) | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| Ynni carbon isel | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.97 | 2.96 | 4.92 | 9.85 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 19.70 |
| Ynni carbon isel | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.61 | 5.62 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.23 |
| Ynni carbon isel | Ynni Lleol Blaengar | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.50 | 3.00 | 9.25 | 9.25 | 1.63 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 24.63 |
| Tir ac eiddo | Porth Caergybi | Stena Line | 0.00 | 0.00 | 4.17 | 15.51 | 14.79 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 34.47 |
| Tir ac eiddo | Safle Strategol Warren Hall | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 14.77 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 14.77 |
| Tir ac eiddo | Safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 1.74 | 5.21 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.94 |
| Tir ac eiddo | Safle Strategol Parc Bryn Cegin | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 |
| Tir ac eiddo | Porth Wrecsam | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.19 | 1.77 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.96 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 1.25 | 1.71 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | 0.00 | 0.00 | 1.62 | 6.93 | 3.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.55 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Hwb Economi Wledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.20 | 4.62 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.82 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.43 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.43 |
| I'w gadarnhau | Prosiectau newydd | I'w gadarnhau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.90 | 4.90 | 4.90 | 4.95 | 4.95 | 4.95 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 29.55 |
| 1.5% ar gyfer ariannu cyllideb refeniw y BUEGC | | | 0.22 | 0.28 | 1.02 | 0.60 | 0.30 | 0.25 | 0.20 | 0.15 | 0.15 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.08 | 0.05 | 3.60 |
| **Cyfanswm Rhaglen** | | | **0.34** | **1.94** | **11.40** | **65.66** | **85.34** | **34.74** | **28.33** | **6.73** | **5.10** | **0.10** | **0.10** | **0.10** | **0.08** | **0.05** | **240.00** |
| **Ariannu Cyfalaf** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Grant Bargen Twf Gogledd Cymru | | | 0.34 | 1.94 | 11.40 | 63.64 | 20.44 | 20.44 | 20.45 | 6.73 | 5.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.08 | 0.05 | 150.91 |
| Benthyciad | | | | | | 2.02 | 64.90 | 14.30 | 7.88 | | | | | | | | 89.09 |
| **Cyfanswm Ariannu Cyfalaf** | | | **0.34** | **1.94** | **11.40** | **65.66** | **85.34** | **34.74** | **28.33** | **6.73** | **5.10** | **0.10** | **0.10** | **0.10** | **0.08** | **0.05** | **240.00** |

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**5ed o Fai 2023**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Cynllun Twf Gogledd Cymru – Adroddiad Perfformiad a Risgiau Chwarter 4 |
| **AWDUR:** | Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno adroddiad Chwarter 4 (Ionawr i Mawrth) y Cynllun Twf a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

1.2. Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Bod y Bwrdd yn ystyried ac yn nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

2.2. Bod y Bwrdd yn cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2. Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

4.3. Mae dau atodiad i'r adroddiad hwn:
- Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 4
- Cofrestr Risg y Portffolio – Mawrth 2023

4.4. <u>Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 4</u>

4.4.1. Mae adroddiad perfformiad Chwarter 4 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

4.4.2. Yn ystod y chwarter hwn lansiwyd ein proses ariannu'r Cynllun Twf i ddewis prosiectau newydd i ymuno â'r Cynllun Twf. Gyda £30 miliwn o gyllid cyfalaf ar gael, mae'r broses wedi ennyn diddordeb sylweddol ac wedi arwain at 26 o geisiadau cadarn yn dod i law. Bydd y broses asesu yn cychwyn yn ystod y chwarter nesaf.

4.4.3. Cymeradwyodd y Bwrdd Achos Busnes Amlinellol ar gyfer ein prosiect Ynni Lleol Blaengar. Bydd y prosiect yn golygu y bydd cronfa £25miliwn yn cael ei sefydlu i fuddsoddi mewn prosiectau ynni glân a datgarboneiddio ledled y Gogledd.

4.4.4. Lansiodd prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter eu cyfle tendro gwerth £8.35 miliwn i ddylunio ac adeiladu'r ganolfan newydd a fydd yn cefnogi busnesau gweithgynhyrchu yn y rhanbarth i ddatgarboneiddio. Mae'r tendr yn gwahodd busnesau i gyflwyno ceisiadau i ddylunio ac adeiladu'r adeilad newydd ar safle Plas Coch, gan gynnwys gosod cyfleuster defnyddio hydrogen a phaneli ffotofoltaidd ynni adnewyddadwy.

4.4.4. Mae diweddariad Chwarter 4 yn dangos prosiectau yn adrodd yn erbyn proffil cyflawni diwygiedig y portffolio a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Medi 2022. Mae dau broseict yn adrodd yn goch ar hyn o bryd naill yn sgil risgiau i sgôp y prosiectau, neu oedi sylweddol i amserlenni'r prosiectau:

- Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon – caniatâd cynllunio eto i'w sicrhau. Fel rhan o'r cyngor cyn cynllunio argymhellwyd fod angen arolygon ystlumod ar dir tu allan i ffin Glynllifon, mae hyn yn cael ei weithredu ond gallai ohirio'r prosiect hyd at flwyddyn.
- Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol - gwaith ar ddatblygu'r prosiect wedi'i oedi yn sgil materion cyllid cyfatebol ac edrych am leoliadau amgen ar gyfer y prosiect.

4.5. <u>Cofrestr Risg y Portffolio – Mawrth 2023</u>

4.5.1. Caiff Cofrestr Risg y Portffolio ei diweddaru'n rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i hadolygu gan y Bwrdd Portffolio a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn chwarterol.

4.5.2. Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru'n llawn gyda nifer o newidiadau wedi'u cofnodi yn y dogfennau, yn cynnwys disgrifiadau risg wedi'u diwygio, sgorio a chamau lliniaru diwygiedig ac mae'r sylwadau wedi'u diweddaru ar gyfer yr holl risgiau.

4.5.3. Er bod y proffil risg wedi parhau'n sefydlog dros y chwarter diwethaf, mae un sgôr risg gweddilliol wedi cynyddu ac un sgôr risg gweddilliol wedi lleihau. Mae'r risg ar ganiatâd cynllunio a statudol wedi cynyddu yn sgil oedi gyda chymeradwyo ar lefel prosiect, ac mae'r risg ar newid Gwleidyddol wedi lleihau wrth i flaenoriaethau a pholisïau'r llywodraeth barhau i gael eu cadarnhau ar draws sectorau perthnasol megis ynni.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

5.2. Mae'r proffil cyflawni a gwariant diwygiedig a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Medi wedi'i gynnwys yn yr adroddiad chwarterol.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o’r adroddiad hwn.

6.2. Mae adrodd rheolaidd ar berfformiad y Cynllun Twf yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ac yn un o ofynion allweddol Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 |
| **Atodiad 2** | Cofrestr Risg y Portffolio – Mawrth 2023 |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

“Un o brif dasgau'r Bwrdd Uchelgais yw monitro cynnydd a risgiau. Mae angen i'r Bwrdd ystyried y gofrestr a bodloni ei hun ei bod yn adlewyrchu'r statws risg yn gywir a bod camau lliniaru yn derbyn sylw.”

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

“Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol Uchelgais Gogledd Cymru.”

# Cynllun Twf Gogledd Cymru

2022-23 Chwarter 4
(Ionawr – Mawrth 2023)
Adroddiad Perfformiad

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
overnment
odraeth y DU

# Cynnwys yr Adroddiad

1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio3

2. Perfformiad y Portffolio**Error! Bookmark not defined.**

3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol**Error! Bookmark not defined.**

4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel8

5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo10

6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth13

7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel14

8. Diweddariad ar Gynnydd y Prosiectau17

9. Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 202218

10. Tabl Olrhain - Trosolwg o gyflawni (Mawrth 2023) 19

11. Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 202220

12. Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf21

ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau'r Cynllun Twf22

# 1. C

| | | Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio (1.5%) | 0.56 | 0.28 | -0.28 | |
| | | Cyfanswm | 2.26 | 1.94 | -0.32 | Gweler uchod |

* Amrywiaeth yw'r gwahaniaeth rhwng y proffil a gynlluniwyd (Achos Busnes y Portffolio 2022) a gwariant Gwirioneddol y Flwyddyn Hyd Yma (YTD). Ffigyrau YTD yn seiliedig ar y sefyllfa ddiwedd blwyddyn.

# ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau'r Cynllun Twf

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | Prifysgol Bangor | Bydd y prosiect yn galluogi i'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol ymestyn ei bresenoldeb a'i gylch gwaith, gan integreiddio'n llawn â'r Prosiect Strategaeth Cenedlaethol a galluogi datblygu asedau allweddol ar raddfa, gan gynnwys prawf-wely 5G, capasiti ymchwil ac offer o'r radd flaenaf. |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Mae'r prosiect hwn yn targedu gwasanaeth cyflym iawn hollgynhwysol ar draws y Gogledd, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu hyd yma gan ddulliau eraill ac na allant gyflawni cyflymder o 30Mbps (lawrlwytho) o leiaf ar hyn o bryd. |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Nod y prosiect yw ceisio gwella dibynadwyedd ac ansawdd gwasanaethau symudol ar y prif ffyrdd a rheilffyrdd yn y Gogledd, gan alluogi gwasanaethau ffibr llawn i safleoedd masnachol allweddol ledled y rhanbarth. Canolbwyntio ar ddatblygu rhwydweithiau ffibroptic sy'n hanfodol ar gyfer darparu band eang 4G, 5G a gigabit. |
| | Campysau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Bydd y prosiect yn ceisio cyflymu datblygiad ystod o opsiynau cysylltedd digidol gyda ffocws cyfredol ar 18 o safleoedd economaidd rhanbarthol allweddol. |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | Buddsoddi mewn seilwaith i gysylltu â rhwydwaith y National Grid a monitro effeithiau amgylcheddol morol. Bydd hyn yn galluogi cynnydd yn y defnydd o dyrbinau gan ddatblygwyr morol a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cefnogi cyflawni prosiect arddangos sy'n ymwneud â chynhyrchu hydrogen gwyrdd o ffynonellau ynni carbon isel a'i ddefnydd o fewn rhwydweithiau trafnidiaeth rhanbarthol. |
| | Egni (Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel) | Prifysgol Bangor | Buddsoddi mewn datblygu'r isadeiledd ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, gwella gallu'r Gogledd a'r DU ar gyfer arloesedd mewn ynni carbon isel a meysydd cysylltiedig, gan helpu i greu'r amodau ar gyfer mewnfuddsoddiad newydd a thwf busnes yn y gadwyn gyflenwi ynni carbon isel yn y Gogledd |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Er mwyn helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol, bydd y prosiect yn cefnogi prosiectau hwyluso arloesol ac arddangoswyr sy'n goresgyn methiannau'r farchnad a datgloi buddsoddiad sector preifat a chymunedol mewn datrysiadau ynni lleol blaengar. |
| | Trawsfynydd | Cwmni Egino | Mae'r safle wedi'i leoli'n unigryw ar gyfer gwneud defnydd 'Cyntaf o'i Fath' o Adweithydd Modwlar Bychan (SMR) neu Adweithydd Modwlar Uwch (AMR). Ar y cyd â'r sector cyhoeddus a phreifat, bydd y Cynllun Twf yn cyfrannu cyllid tuag at isadeiledd galluogi ar gyfer y datblygiad hwn. |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu. |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cyflwyno prif wasanaethau fel bod modd i'r safle defnydd cymysg 65 hectar gael ei roi ar y farchnad ar werth ac yna gael ei ddatblygu gan y sector preifat. |
| | *Mae prosiect safle Strategol Allweddol Bodelwyddan wedi'i dynnu'n ôl. Nid oes prosiect newydd yn ei le wedi'i adnabod eto.* | | |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Darparu arwynebedd llawr diwydiannol i fodloni'r galw hysbys am unedau. |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Bydd arian y Cynllun Twf yn cynorthwyo yng nghyflwyniad safle wedi'i glirio a'i adfer gyda phrif wasanaethau er mwyn dwyn ymlaen datblygiad preswyl a masnachol defnydd cymysg |
| | Porth Caergybi | Stena Line | Sicrhau dyfodol porthladd Caergybi drwy ddarparu cyfleusterau mordeithio a llwytho trwm dŵr dwfn, gwella mynediad cerbydol, gwarantu dyfodol y morglawdd a darparu ar gyfer galwadau prosiectau ynni rhanbarthol. |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | Y weledigaeth yw creu Canolbwynt Economi Gwledig arbennig o'r radd flaenaf yng Nglynllifon, sy'n cynnig ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i gryfhau a gwella'r economi rhanbarthol, yn benodol drwy dyfu'r sector bwyd a diod. |
| | *Mae prosiect Fferm Sero Net Llysfasi wedi'i dynnu'n ôl. Nid oes prosiect newydd yn ei le wedi'i adnabod eto.* | | |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | Sicrhau dyfodol yr ystod o ddarpariaeth sgiliau a chynyddu buddion masnachol o un o'r sectorau mwyaf sefydledig yn y rhanbarth. Bydd y rhwydwaith talent yn ysgogi cydweithrediad cyhoeddus-preifat i gydlynu gweithrediad ar sgiliau a datblygu cynnyrch i drawsnewid a sbarduno twf y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth. |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB) | Prifysgol Bangor | Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn ganolfan gyda'r gorau yn y byd o ran canfod a nodweddu ensymau newydd o bwys diwydiannol. Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn darparu sylfaen gref ar gyfer denu ymchwilwyr blaenllaw ar lefel fyd-eang, cyllid ymchwil cyhoeddus a masnachol arwyddocaol a mewnfuddsoddiad i Gymru. |
| | Canolfan Opteg a | Prifysgol Glyndŵr | Bydd y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn darparu cyfleusterau sydd wedi'u targedu i roi hwb i ddatblygu sgiliau lefel uchel i'r rhanbarth a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Uchel | Pheirianneg Menter | | galluogi i fusnesau bach a chanolig eu maint a busnesau mawr weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar ymchwil a datblygu opteg, cyfansoddion a thanwydd cell hydrogen sy'n cael ei yrru'n fasnachol. |

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

# COFRESTR RISG PORTFFOLIO CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU

| Rhif y Risg | Dyddiad Codi'r Risg | Categori'r Risg | Enw'r Risg | Perchennog y Risg | Disgrifiad o'r Risg | Graddfa Risg Gros Cyfredol | | | Tuedd | Camau Lliniaru | Dyddiadau Cwblhau Camau | Perchennog y Cam | Graddfa Risg weddilliol | | | Tuedd | Statws (agored/caedig) | Sylwadau | Dyddiad y diweddariad diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | P | I | Sgôr | | | | | P | I | Sgôr | | | | |
| R001 | 21.10.2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Capasiti | Cyfarwyddwr Portffolio | Os nad oes adnoddau digonol yn eu lle ar lefel portffolio, rhaglen a phrosiect, mae risg y gallai hyn effeithio ar gyflawni'r cynllun twf yn llwyddiannus. | 4 | 5 | 20 | ↔ | Cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais i ymestyn contractau tymor penodol hyd fis Mawrth 2024. Y rmwyafrif o'r Tîm PMO yn ei le<br>Capasiti caffael a chyfreithiol technegol ychwanegol i'w sicrhau ar gyfer prosiectau fel sydd angen<br>PMO i ddefnyddio cefnogaeth dechnegol allanol pan fo angen<br>PMO yn cefnogi partneriaid i sicrhau capasiti i gyflawni a chefnogi gweithgaredd recriwtio<br>Trefniadau ôl-lenwi yn eu lle i reoli effaith secondiad rhan amser y Cyfarwyddwr Portffolio i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig<br>Opsiynau i roi sylw i ddiwedd contractau Tymor Penodol ym Mawrth 2024 i'w hystyried gan y Bwrdd<br>Bid SPF yn cynnwys cyfraniad tuag at rai costau PMO presennol<br>Cais i'r ddwy Lywodraeth yn gofyn am gynyddu'r haenen uchaf o 1.5% i 2% a galluogi'r PMO i gael at gyllid ychwanegol drwy gyllideb y Cynllun Twf | Yn ei le<br>Parhaus<br>Adolygu'n fisol<br>Adolygu'n fisol<br>Yn ei le<br>Chwe 2023<br>Mawrth 2023<br>Ebrill / Mai 2023 | PMO<br>PMO<br>PMO<br>PMO, Arianwyr y Prosiectau<br>PMO<br>PMO<br>PMO<br>PMO | 4 | 4 | 16 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Byddai colli staff yn cael effaith sylweddol ar gyflawni'r Portffolio. Aros am benderfyniad ar y bid SPF ac ystyriaeth barhaus i'r haenen uchaf. | 13.04.2023 |
| R002 | 21.10.2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Oediad | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os oes oedi i gyflawni prosiectau, mae yna risg y gallai hyn gael effaith ar wireddu buddion neu gallai olygu bod prosiectau ddim yn symud ymlaen. | 5 | 5 | 25 | ↔ | Adroddiadau cryno misol i'r Bwrdd Rhaglen gyda llwybrau dyrchafu i'r Bwrdd Uchelgais.<br>Log RAID rhaglenni a phrosiectau yn eu lle i gofnodi risgiau a rheoli materion.<br>Achosion busnes a chynlluniau gweithredu prosiectau i ddangos yn glir y risgiau i gyflawni prosiectau a'r mesurau lliniaru.<br>Adroddiadau Chwarterol i'r Bwrdd Uchelgais a'r Bwrdd Portffolio.<br>Amserlenni prosiectau wedi'u hadolygu fel rhan o Achos Busnes y Portffolio 2022.<br>Cronfa Cyflawni Prosiectau wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais gyda cheisiadau i newid i'w cyflwyno ar gyfer prosiectau perthnasol ym mis Chwefror 2023. | Misol<br>Misol<br>N/A<br>Chwarterol<br>Yn ei le<br>Chwe 2023 | PMO<br>PMO, Ariannwr y Prosiect<br>Noddwr y Prosiect<br>Noddwr y Prosiect<br>PMO<br>PMO, Ariannwr y Prosiect | 5 | 5 | 25 | ▲ | Agored | Wedi adolygu'r risg a diweddaru'r camau lliniaru. Cynnydd yn y sgôr risg gweddilliol o galnlyniad i'r oedi tebygol yng nghyflawni'r achos busnes ar gyfer sawl prosiect, gan gynnwys Egni, Glynllifon a Morlais. Goblygiadau ystyried yr Adolygiad Ffyrdd. | 13.04.2023 |
| R003 | 21.10.2020 | Ariannol | Fforddiadwyedd | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os bydd costau'r prosiectau yn cynyddu, ceir risg na fyddent yn bwrw ymlaen neu efallai y byddai angen lleihau sgôp y prosiectau. | 5 | 5 | 25 | ↔ | Bydd achosion busnes y prosiectau yn nodi mesurau rheoli risg, masnachol ac ariannol manwl ar lefel prosiect i reoli costau.<br>Caiff trefniadau adrodd perfformiad, risg ac ariannol cadarn eu sefydlu ar gyfer yr holl brosiectau<br>Unwaith y bydd yr Achosion Busnes Prosiect wedi'u cymeradwyo, bydd unrhyw gostau ychwanegol yn gyfrifoldeb ar Ariannwr y Prosiect ac fe ystyrir opsiynau ariannu amgen.<br>Trafodaethau parhaus gyda'r DU/LlC ar strategaeth liniaru i reoli risg costau cynyddol<br>Cronfa Cyflawni Prosiectau wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais gyda cheisiadau i newid i'w cyflwyno ar gyfer prosiectau perthnasol ym mis Chwefror 2023. | N/A<br>Misol<br>N/A<br>Misol<br>Yn ei le | PMO, Ariannwr y Prosiect<br>PMO<br>PMO<br>PMO<br>PMO | 5 | 4 | 20 | ↔ | Agored | Wedi adolygu'r risg a diweddaru'r camau lliniaru. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol ar y cam hwn. Bydd y gronfa cyflawni prosiect yn helpu i ariannu'r cynnydd mewn costau sy'n gysylltiedig â phrosiectau oedd yn bodloni'r meini prawf. | 12.01.2023 |
| R006 | 21.10.2020 | Amgylcheddol | Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth | Cyfarwyddwr Portffolio | Os nad yw prosiectau yn ystyried allyriadau carbon neu golli bioamrywiaeth mewn asesiadau lefel prosiect, mae yna risg y gallai'r portffolio gyfrannu at broblemau megis newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. | 4 | 3 | 12 | ↔ | Datganiad sefyllfa ar Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth wedi'i fabwysiadu gan y Bwrdd Uchelgais.<br>Achosion Busnes y Prosiectau i arddangos cyflawni yn erbyn y sefyllfa y mae'r Bwrdd Uchelgais wedi'i fabwysiadu.<br>Methodoleg ar sut i ystyried allyriadau carbon a cholled bioamrywiaeth mewn achosion busnes prosiectau bellach wedi'i chyhoeddi a'i rhannu gyda'r holl brosiectau. | N/A<br>N/A<br>Yn ei le | BWRDD UCHELGAIS<br>PMO/SROs y Prosiect<br>PMO | 3 | 3 | 9 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Cario ymlaen i weithredu'r fethodoleg a'r hyfforddiant cysylltiedig | 13.04.2023 |
| R007 | 21.10.2020 | Ariannol | Buddsoddiad Sector Preifat | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os na chaiff buddsoddiad y sector preifat ei sicrhau, mae risg na chaiff prosiectau eu cyflawni neu y cânt eu cyflawni ar raddfa lai a fyddai'n effeithio ar y buddion i'r rhanbarth. | 4 | 5 | 20 | ↔ | Parhau i ymgysylltu ag Arianwyr y Prosiectau a phartneriaid sector preifat<br>Datblygu achosion busnes prosiectau a chytundebau cadarn ar gyfer cyllid y Cynllun Twf<br>Lansio'r broses prosiect ar gyfer adnabod prosiectau Cynllun Twf yn lle rhai eraill<br>Yn dilyn yr argymhelliad PAR, mae strategaeth buddsoddiad wedi cael ei datblygu gyda gwaith pellach i'w gomisiynu ddechrau 2023 | N/A<br>N/A<br>Chwe 2023<br>Mawrth 2023 | PMO/SROs y Prosiect<br>PMO/SROs y Prosiect<br>Y BWRDD UCHELGAIS, PMO<br>PMO | 4 | 4 | 16 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Lansio'r broses prosiect ar gyfer adnabod prosiectau Cynllun Twf yn lle rhai eraill. Yn aros am ragor o fanylion gan Gwmni Egino ynghylch rôl y PSI o ran datblygu Prosiect Trawsfynydd sy'n ffurfio rhan arwyddocaol o'r targed PSI. | 13.04.2023 |
| R008 | 21.10.2020 | Ariannol | Buddsoddiad Sector Cyhoeddus | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os na chaiff buddsoddiad y sector cyhoeddus ei sicrhau, mae risg na chaiff prosiectau eu cyflawni neu y cânt eu cyflawni ar raddfa lai a fyddai'n effeithio ar y buddion i'r rhanbarth. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Mae holl bartneriaid y Bwrdd Uchelgais wedi llofnodi'r Cynllun Twf a Chytundeb Llywodraethu 2.<br>Datblygu achosion busnes prosiectau a chytundebau cadarn ar gyfer cyllid y Cynllun Twf | Wedi cwblhau<br>N/A | BWRDD UCHELGAIS<br>PMO/SROs y Prosiect | 4 | 4 | 16 | ↔ | Agored | Wedi adolygu'r risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 13.04.2023 |

| Rhif y Risg | Dyddiad Codi'r Risg | Categori'r Risg | Enw'r Risg | Perchennog y Risg | Disgrifiad o'r Risg | Graddfa Risg Gros Cyfredol | | | Tuedd | Camau Lliniaru | Dyddiadau Cwblhau Camau | Perchennog y Cam | Graddfa Risg weddilliol | | | Tuedd | Statws (agored/caedig) | Sylwadau | Dyddiad y diweddariad diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | P | I | Sgôr | | | | | P | I | Sgôr | | | | |
| R009 | 21.10.2020 | Rheoleiddio | Caniatâd Cynllunio a Statudol | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os nad yw prosiectau'n derbyn y caniatâd statudol a'r gymeradwyaeth gynllunio angenrheidiol, ceir risg na fydd y prosiectau yn cael eu cyflawni ac na chaiff y buddion eu gwireddu. | 4 | 5 | 20 | ↔ | Bydd achosion busnes prosiectau cadarn yn nodi'r gofynion caniatâd ar gyfer pob prosiect a'r risgiau i gyflawni'r prosiect<br>Parhau i ymgysylltu ag arianwyr y prosiectau i ddeall y broses caniatâd a'r risgiau gyda'r gefnogaeth a ddarperir lle bo hynny'n briodol<br>Strategaeth ffosffadau awdurdodau lleol yn ei lle fel rhan o fabwysiadu Cynllun Lleol.<br>PMO wedi cyflawni adolygiad o gynnydd cymeradwyo prosiectau ar gyfer pob prosiect ac wrth symud ymlaen, bydd yn adrodd i'r Bwrdd Uchelgais bob chwarter<br>Adolygiad gwersi a ddysgwyd i'w gyflawni ar ôl oedi gyda chymeradwyo ar lefel prosiect | N/A<br>N/A<br>Yn ei le<br>Mehefin 2023 | PMO/SROs y Prosiect<br>PMO<br>Awdurdodau Lleol<br>PMO<br>PMO, Arianwyr y Prosiectau | 4 | 5 | 20 | ▲ | Agored | Wedi adolygu risg. Risg yn cynyddu yn sgil oedi gyda chymeradwyo ar lefel prosiect. Adroddiadau chwarterol i ymgorffori diweddariad cymeradwyo wrth symud ymlaen. | 13.04.2023 |
| R010 | 21.10.2020 | Effaith Cymdeithasol ac Enw da | Amcanion Gwariant | Cyfarwyddwr Portffolio | Os yw prosiectau'n methu cyflawni yn erbyn amcanion gwario'r portffolio, yna ceir risg na fydd y Cynllun Twf yn bodloni ei dargedau mewn perthynas â chynhyrchu swyddi, GVA a buddsoddiad. | 5 | 4 | 20 | ↔ | Datblygir achosion busnes cadarn ar gyfer pob rhaglen a phrosiect yn unol â'r Model Pum Achos Busnes a bydd angen nodi y cyfraniad i dargedau amcanion gwariant y portffolio<br>Proses adolygu prosiect a rheoli newid yn ei lle.<br>Lansio'r broses i adnabod prosiectau Cynllun Twf yn lle rhai eraill.<br>Yn dilyn yr argymhelliad PAR, mae strategaeth buddsoddiad wedi cael ei datblygu | N/A<br>N/A<br>Chwefror 2023<br>Yn ei le | PMO/SROs y Prosiect<br>PMO<br>Y BWRDD UCHELGAIS, PMO<br>PMO | 4 | 4 | 16 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. PMO i adrodd i Lywodraethau yn ystod cyfarfodydd Cynllun Twf rheolaidd. I'w adolygu yn dilyn cwblhau Proses Prosiectau Amgen y Cynllun Twf | 13.04.2023 |
| R013 | 21.10.2020 | Effaith Cymdeithasol ac Enw da | Newid Gwleidyddol | Cyfarwyddwr Portffolio | Os na chaiff rhanddeiliaid eu rheoli'n effeithiol, ceir risg y gallai newid gwleidyddol effeithio ar gefnogaeth i'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Ymgysylltu cyson gyda gwleidyddion a swyddogion Llywodraeth Cymru a'r DU a llywodraeth leol.<br>GA2 a'r Cytundeb Terfynol i gadarnhau ymrwymiadau'r holl bartïon.<br>Aelodau newydd i gael eu briffio ar Bortffolio'r Cynllun Twf yn dilyn y newid mewn arweinyddiaeth<br>Ymgysylltu â Gweinidogion newydd Llywodraeth y DU | N/A<br>Wedi cwblhau<br>Wedi cwblhau<br>Parhaus | Y BWRDD UCHELGAIS, PMO<br>Y BWRDD UCHELGAIS<br>PMO<br>PMO | 2 | 4 | 8 | ▼ | Agored | Risg wedi'i hadolygu ac wedi lleihau wrth i flaenoriaethau a pholisïau'r llywodraeth barhau i gael eu cadarnhau ar draws sectorau perthnasol megis ynni. | 13.04.2023 |
| R014 | 22.10.2020 | Ariannol | Twyll | Cyfarwyddwr Portffolio | Os na chaiff prosesau priodol eu rhoi yn eu lle a'u rheoli, yna gallai'r portffolio fod yn ddarostyngedig i hawliadau twyllodrus a fyddai'n arwain at gamddefnydd o gyllid cyhoeddus. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Prosiectau i gael prosesau monitro ariannol cadarn yn eu lle<br>PMO i adolygu'r hawliadau a gyflwynir cyn eu pasio nhw at y corff atebol i'w talu<br>Cod ymddygiad a pholisi gwrthdaro buddiannau wedi'u hymgorffori fel rhan o Gytundeb Llywodraethu 2<br>Caiff Cofrestr Gwrthdrawiad Buddiannau ei gadw ar gyfer pob rhaglen, prosiect a'r grwpiau ymgynghorol. | N/A<br>N/A<br>Wedi cwblhau<br>N/A | PMO<br>PMO<br>Swyddog Monitro<br>PMO | 2 | 4 | 8 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 13.04.2023 |
| R015 | 22.10.2020 | Effaith Cymdeithasol ac Enw da | Gwireddu Buddion | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os na chaiff buddion prosiectau eu gwireddu, ceir risg y gallai'r Cynllun Twf yn gyffredinol fethu gwireddu'r buddion sydd wedi'u nodi o fewn yr achosion busnes. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Bydd pob rhaglen a phrosiect yn gyfrifol am reoli buddion drwy Gynllun Gwireddu Buddion.<br>Adroddiadau cryno misol i'r Bwrdd Rhaglen i fonitro gwireddu buddion<br>Egwyddorion Caffael wedi'u mabwysiadu gyda ffocws ar fuddion cymunedol a gwerth cymdeithasol<br>Canllawiau Gwireddu Buddion wedi'u datblygu ac yn cael eu dosbarthu i arianwyr prosiectau i'w defnyddio yn achosion busnes y prosiectau | N/A<br>Misol<br>Wedi cwblhau<br>N/A | PMO, SROs y Rhaglenni a'r Prosiectau<br>PMO<br>PMO<br>PMO | 3 | 3 | 9 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 13.04.2023 |
| R016 | 22.10.2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Sicrwydd | Rheolwr Gweithrediadau | Os na chaiff prosesau sicrwydd y cytunir arnynt eu dilyn, ceir risg y gallai cymeradwyo prosiectau gael ei effeithio a gallai arwain at atal/gohirio taliadau grant y llywodraeth. | 3 | 5 | 15 | ↔ | Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP) wedi'i gytuno gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r Cynllun Twf Terfynol.<br>Parhau i ymgysylltu â Hwb Sicrwydd Llywodraeth Cymru i fireinio a diweddaru'r Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP)<br>Arweinydd sicrwydd y PMO i gydlynu cyflawni sicrwydd yn unol â'r IAAP | Wedi cwblhau<br>Chwarterol<br>N/A | PMO<br>PMO<br>PMO | 2 | 4 | 8 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 13.04.2023 |
| R017 | 22.10.2020 | Ariannol | Rheolaeth Ariannol | Swyddog a151 | Os na chaiff trefniadau ariannol priodol eu rhoi yn eu lle, yna gallai cyflawni'r cynllun twf, tynnu arian grant i lawr a chlustnodi cyllid fod mewn perygl. | 3 | 4 | 12 | ↔ | Bydd y Bwrdd Uchelgais yn defnyddio prosesau ariannol presennol Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletya<br>Bydd achosion busnes y prosiectau yn nodi mesurau rheoli risg, masnachol ac ariannol manwl ar lefel prosiect i reoli cyllid<br>Caiff trefniadau adrodd perfformiad, risg ac ariannol misol cadarn eu sefydlu ar gyfer yr holl brosiectau<br>Proses hawliadau ariannol gadarn wedi'i sefydlu ar gyfer tynnu arian i lawr | N/A<br>N/A<br>Misol<br>N/A | PMO<br>PMO, SRO y Prosiect<br>PMO, SRO y Prosiect<br>PMO | 2 | 3 | 6 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 13.04.2023 |

| Rhif y Risg | Dyddiad Codi'r Risg | Categori'r Risg | Enw'r Risg | Perchennog y Risg | Disgrifiad o'r Risg | Graddfa Risg Gros Cyfredol | | | Tuedd | Camau Lliniaru | Dyddiadau Cwblhau Camau | Perchennog y Cam | Graddfa Risg weddilliol | | | Tuedd | Statws (agored/caedig) | Sylwadau | Dyddiad y diweddariad diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | P | I | Sgôr | | | | | P | I | Sgôr | | | | |
| R018 | 01.10.2020 | Ariannol | Cyllid refeniw | Swyddfa Rheoli Portffolio ac Arianwyr y Prosiect | Os na fydd cyllid refeniw digonol yn ei le i gefnogi gweithgareddau'r Bwrdd Uchelgais a chyflawni'r Cynllun Twf, yna mae'n bosib yr effeithir ar gyflawniad prosiectau a chyrraedd amcanion gwario a buddion. | 4 | 5 | 20 | ▲ | Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymestyn contractau tymor penodol i fis Mawrth 2024. Parhau i ymchwilio i ddatrysiadau tymor hwy<br><br>Partneriaid ac arianwyr prosiectau yn gyfrifol am sicrhau cyllid refeniw i gefnogi prosiectau nad ydynt yn cael eu harwain gan y Bwrdd Uchelgais<br><br>PMO yn gweithio i adnabod cyfleoedd ariannu ychwanegol ar gyfer prosiectau dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais<br><br>PMO yn edrych ar gyfalafu posib costau cyflog y prosiectau.<br><br>Mae opsiynau i sicrhau refeniw i ddisodli cyllid ESF yn cael eu hystyried gan y PMO a'r Bwrdd | N/A<br><br>N/A<br><br>N/A<br><br>N/A<br><br>Chwe 2023 | PMO<br><br>PMO, SRO y Prosiect<br><br>PMO, SRO y Prosiect<br><br>PMO<br><br>PMO, Bwrdd Portffolio | 4 | 4 | 16 | ▲ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 13.04.2023 |
| R019 | 01.10.2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Capasiti Sgiliau a Chadwyn Gyflenwi | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os nad oes gan y gadwyn gyflenwi ranbarthol gapasiti i gyflawni prosiectau, yna gellid effeithio ar gyflawniad prosiectau a gallai buddion rhanbarthol fod yn is. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Achosion busnes a chynlluniau gweithredu prosiectau i ddangos yn glir y risgiau i gyflawni prosiectau a'r mesurau lliniaru, yn cynnwys risgiau cadwyn gyflenwi.<br><br>RSP yn gweithio gyda'r PMO i adnabod heriau sgiliau / cadwyni cyflenwi rhanbarthol ac adnabod mesurau lliniaru<br><br>Cyllid ychwanegol wedi'i sicrhau ar gyfer gweithgaredd sgiliau<br><br>Prosiectau i gynnal ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar lle bo hynny'n briodol | N/A<br><br>N/A<br><br>Yn ei le<br><br>N/A | PMO<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>Arianwyr y Prosiectau | 3 | 4 | 12 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 13.04.2023 |
| R020 | 03.10.2022 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Y Cyd-destun Economaidd | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os oes newidiadau sylweddol i economi'r DU (e.e. yr argyfwng costau byw a'r argyfwng diogelwch ynni), gall hyn effeithio'n andwyol ar achosion strategol ac economaidd rhaglenni a phrosiectau. | 3 | 5 | 15 | ↔ | Achosion busnes a chynlluniau gweithredu prosiectau i ddangos yn glir y risgiau i gyflawni prosiectau, yn cynnwys effaith datblygiadau economaidd diweddar | N/A | PMO, Arianwyr y Prosiectau | 2 | 5 | 10 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 13.04.2023 |

# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
## 5 Mai 2023

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Cynllun Twf Gogledd Cymru - Proses Gymeradwyo FBC wedi'i Mireinio |
| **AWDUR:** | Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw amlinellu cynnig i fireinio'r broses gymeradwyo ar gyfer Achosion Busnes Llawn (FBC) i sicrhau bod penderfyniadau ar fuddsoddiad terfynol yn cael eu gwneud mewn modd amserol ac effeithiol.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r llwybr cymeradwyo wedi'i fireinio ar gyfer Achosion Busnes Llawn (FBC) fel yr amlinellir yn paragraff 4.10 yr adroddiad hwn ble:

- ➢ Na fu unrhyw newid yn sgôp y prosiect ers i'r Achos Busnes Amlinellol (OBC) gael ei gymeradwyo nac unrhyw gais dilynol am newid a gafodd ei gymeradwyo.
- ➢ Nid yw targedau amcanion gwario (e.e. swyddi) wedi cael eu lleihau fwy na 10% ers i'r Achos Busnes Amlinellol (OBC) gael ei gymeradwyo nac unrhyw gais dilynol a gafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.
- ➢ Nid oes unrhyw ofynion ariannol ychwanegol ar Gynllun Twf Gogledd Cymru ers i'r Achos Busnes Amlinellol (OBC) gael ei gymeradwyo nac unrhyw gais dilynol am newid a gafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.
- ➢ Nid oes angen awdurdod dirprwyedig pellach gan y Bwrdd.

2.2. Ym mhob achos arall y bydd y broses gymeradwyo FBC arferol yn berthnasol.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. “Sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi terfynol gan y Bwrdd yn gallu cael eu gwneud mewn modd amserol ac effeithiol.”

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2. Yn unol â chytundeb terfynol y Cynllun Twf, caiff achosion busnes eu datblygu ar gyfer pob prosiect o fewn y Cynllun Twf, yn unol â'r canllawiau 'Better Business Case' a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys EF. Bydd pob achos busnes yn cynnwys pum achos a fydd yn rhoi sylw i gwestiynau allweddol a dylid eu cefnogi gan weithdai.

4.3. Mae'r rhan fwyaf* o brosiectau yn dilyn datblygiad tri cham a phroses gymeradwyo:

- Achos Amlinellol Strategol (SOC) - wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Rhaglen perthnasol os oes angen
- Achos Busnes Amlinellol (OBC) - wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd
- Achos Busnes Llawn (FBC) - wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd

** gelir ystyried prosiectau gwerth is, risg isel ar gyfer Achos Cyfiawnhad Busnes (ACB) gydag un cam*

4.4. Mae cymeradwyo'r OBC yn gweithredu fel penderfyniad mewn egwyddor gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd sy'n galluogi arianwyr prosiect i gwblhau'r broses gaffael, sicrhau cost a sicrwydd ymarferoldeb ac yna i ddiweddaru eu hachos busnes yn FBC. Cymeradwyo'r FBC yw'r penderfyniad buddsoddi terfynol sy'n galluogi i'r cytundeb ariannu gael ei lofnodi ac i ddechrau rhoi'r prosiect ar waith.

4.5 Mae'r penderfyniadau OBC ac FBC gan y Bwrdd yn cael eu cefnogi gan broses sicrwydd cadarn a arweinir gan y Swyddfa Rheoli Portffolio sy'n cynnwys adolygiadau o'r achosion busnes ac ystyriaeth gan y bwrdd rhaglen perthnasol a'r Bwrdd Portffolio.

<u>Heriau</u>

4.6. Mae arianwyr prosiectau'r Cynllun Twf wedi gofyn i'r Swyddfa Rheoli Portffolio adolygu a symleiddio'r broses ar gyfer sicrhau cymeradwyaeth achosion busnes sydd eu hangen. Adlewyrchir hyn mewn argymhelliad yn yr adroddiad Adolygiad Porth diweddaraf ar gyfer y Swyddfa Rheoli Portffolio.

4.7. Tra bod yr amser a gymerir i sicrhau cymeradwyaeth OBC yn llwyr ddibynnol ar ansawdd yr achos busnes a'r materion i'w datrys, cydnabyddir y gellir symleiddio'r broses gymeradwyo FBC er mwyn cynorthwyo prosiectau i gael penderfyniadau cynt ac i liniaru'r risg o gostau cynyddol.

4.8. Dros y 12 mis diwethaf, bu lleihad sylweddol ym maint yr amser y mae prisiau tendr yn ddilys, gyda llawer o gynigwyr yn amharod i roi prisiau sefydlog am 90 diwrnod ynghyd â'r rhai sy'n adeiladu'r risg at eu costau. Yn bresennol, gall y broses gymeradwyo FBC gymryd hyd at 3 mis yn dibynnu ar bryd fydd cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu trefnu. Gallai hyn arwain at gostau cynyddol neu, yn y sefyllfa waethaf, at yr angen i ail-gaffael.

<u>Proses Symlach Arfaethedig</u>

4.9. Yr opsiwn cychwynnol a ystyriwyd oedd ceisio dirprwyaeth gan y Bwrdd ar gyfer Cyfarwyddwr y Portffolio i gymeradwyo Achosion Busnes Llawn mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Monitro a'r swyddog Adran 151. Yr opsiwn hwn fyddai'n rhoi'r hyblygrwydd mwyaf ac arbedion amser posib yn y broses gwneud penderfyniad. Fodd bynnag, ar ôl ymgynghori â'r Swyddog Monitro, fe'i ystyriwyd yn anghydnaws â Chytundeb Llywodraethu 2 lle mae cymeradwyaeth yr achos busnes terfynol yn cael ei amlinellu'n glir fel mater i'r cyd-bwyllgor.

4.10. Felly, mae opsiwn diwygiedig wedi cael ei ddatblygu. Yn yr opsiwn hwn, lle mae achosion busnes yn diwallu'r meini prawf a amlinellir yn 2.1, ni fyddai angen ystyriaeth gan y Bwrdd Rhaglen na'r Bwrdd Portffolio a byddai achosion busnes yn symud i ystyriaeth gan y Bwrdd yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Portffolio. Er mwyn rhoi hyblygrwydd pellach, gellir cymeradwyo Achosion Busnes Llawn ar ystod o gostau lle nad yw'r penderfyniad caffael

wedi'i gadarnhau a rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr y Portffolio i gymeradwyo'r gost derfynol.

4.11. Mae'r isod yn amlinellu sut mae'r broses symlach i gymeradwyo Achosion Busnes Llawn yn cymharu â'r broses bresennol. Mae'r broses hon yn digwydd ar ôl i'r OBC gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd ac ar ôl cwblhau'r broses gaffael.

| **Y Broses Gymeradwyo FBC Bresennol** | | **Y Broses Gymeradwyo Symlach Arfaethedig** | |
|---|---|---|---|
| 1 | Ariannwr prosiect yn diweddaru FBC ar ôl caffael | 1 | Ariannwr prosiect yn diweddaru FBC ar ôl caffael |
| 2 | FBC wedi'i adolygu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio ac addasiadau terfynol yn cael eu gwneud gan Ariannwr y Prosiect | 2 | FBC wedi'i adolygu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio ac addasiadau terfynol yn cael eu gwneud gan Ariannwr y Prosiect |
| 3 | FBC wedi'i ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Rhaglen | 3 | FBC wedi'i ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd gydag ystod o gostau os oes angen |
| 4 | FBC wedi'i ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Portffolio | 4 | Cymeradwyo'r penderfyniad dirprwyedig i gadarnhau costau terfynol os oes angen |
| 5 | FBC wedi'i ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd | 5 | Ariannwr y Prosiect wedi llofnodi'r cytundeb ariannu ac ymrwymo i gontractau |
| 6 | Ariannwr y Prosiect wedi llofnodi'r cytundeb ariannu ac ymrwymo i gontractau | | |

<u>Buddion y Broses Symlach Arfaethedig</u>

4.12. Nodwyd y buddion isod o'r cynnig hwn:

- Lleihau'r amser sydd ei angen i sicrhau cymeradwyaeth FBC oddeutu 1-2 mis;
- Cynorthwyo i gyflymu prosiectau i gael eu cyflawni a gwireddu buddion;
- Mwy o hyblygrwydd i ymateb i newidiadau mewn amserlenni caffael gan nad yw penderfyniadau yn ddibynnol ar ddyddiad Bwrdd penodol;
- Lliniaru'r risg o gostau cynyddol posib wrth i benderfyniadau beidio cael eu gwneud yn ystod y cyfnod dilysrwydd tendr;

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o’r cynnig hwn; fodd bynnag, bydd y cynnig yn lleihau'r risg o gostau ychwanegol i brosiectau drwy'r broses gaffael drwy leihau'r amser sydd ei angen i sicrhau penderfyniad ar gymeradwyo FBC.

5.2. Bydd y cynnig yn lleihau'r galwadau capasiti ar y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i swyddogion gan bartneriaeth ehangach a gynrychiolir ar y Bwrdd Portffolio ac amryw fyrddau rhaglen.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Mae'r Cytundeb Twf Terfynol y cytunwyd arno rhwng partneriaid y Bwrdd Uchelgais Economaidd, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn amlinellu mai mater i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yw cymeradwyo achosion busnes prosiectau. Mae hon yn weithdrefn benodol sydd wedi'i chynnwys yn GA2. Er bod gan y Bwrdd bwerau dirprwyo mae'n gyfyngedig i ddilyn y drefn yn y cytundeb.

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

“Cefais gyfle i gynghori ar gynnwys yr adroddiad. Gellir mabwysiadu y penderfyniad a geisir fel ffordd ymlaen sydd hefyd yn cyfarch gofynion GA2.”

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

“Credaf fod y weithdrefn addasedig sy’n cael ei amlinellu yn yr adroddiad yma yn rhesymol ac yn caniatáu i brosiectau allu symud ymlaen yn brydlon, tra’n parhau i warchod buddiannau’r partneriaid. Gan mai achosion sydd yn cwrdd â meini prawf penodol fyddai’n destun y drefn newydd, rwyf yn fodlon fod camau digonol yn eu lle i liniaru unrhyw gynnydd mewn risgiau llywodraethu fel canlyniad i liflinio’r broses, fydd yn cyfrannu tuag at wneud y trefniadau yn fwy effeithiol ac effeithlon.

Rwyf yn cefnogi’r penderfyniad a geisir.”

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**5 Mai 2023**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Adnoddau i'r Swyddfa Rheoli Portffolio |
| **AWDUR:** | Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio<br>Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw amlinellu opsiynau i ddarparu adnoddau i'r Swyddfa Rheoli Portffolio dros y pedair blynedd nesaf i oruchwylio cyfnod cyflawni allweddol Cynllun Twf Gogledd Cymru.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r cynnydd yng swm y grant Cynllun Twf sydd ar gael i gefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio o 1.5% i 2% gan leihau swm cyffredinol yr arian i gefnogi prosiectau newydd drwy'r broses prosiectau newydd o £1.2 miliwn ac ystyried cynnydd pellach petai unrhyw arian heb ei ddyrannu ar ddiwedd y broses i ddewis prosiectau newydd ar gyfer y Cynllun Twf.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Sefydlwyd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn wreiddiol ym mis Ionawr 2020 gyda thîm bychan o staff. Yn sgil cais llwyddiannus am grant Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (ESF), ehangwyd y tîm a cheir 19.4 FTE yn y Swyddfa Rheoli Portffolio craidd ar hyn o bryd. Nid yw hyn yn cynnwys y ddau aelod o staff yn y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'r tri aelod o staff yn y Tîm Ynni Strategol i gefnogi'r datblygiad o Gynlluniau Gweithredu Ynni Ardal Leol, a ariannir gan grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru.

4.2. Mae'r grant ESF a sicrhawyd yn mynd tan ddiwedd mis Mehefin 2023 a chyflogwyd y rhan fwyaf o staff yn y Swyddfa Rheoli Portffolio (ac eithrio saith swydd barhaol) yn wreiddiol ar gontractau tymor sefydlog hyd at 30 Mehefin 2023. Ym mis Mawrth 2022, penderfynodd y Bwrdd ymestyn y contractau tymor sefydlog yma hyd at fis Mawrth 2024 i'w hariannu o adnoddau presennol gan gynnwys y defnydd o gronfeydd wrth gefn, cyfalafu cyflogau a grant y Cynllun Twf.

4.3. Fe wnaeth y penderfyniad hwn liniaru'r risg o staff yn gadael yn y tymor byr dros y flwyddyn ddiwethaf; fodd bynnag, mae'r risg yn parhau'n sylweddol o ystyried bod mwyafrif y tîm

bellach o fewn 12 mis diwethaf eu contractau. Mae hyn bellach yn risg sylweddol i gyflawni'r Cynllun Twf oherwydd ni ellir ymestyn contractau ymhellach heb adnabod a sicrhau cyllid ychwanegol.

4.4. Mae adnoddau yn y Swyddfa Rheoli Portffolio craidd wedi lleihau i 19.4 FTE yn ddiweddar gyda thri aelod o'r tîm yn gadael i rolau newydd gyda mwy o ddiogelwch swydd. Mae hyn yn amlygu'r risg a achosir gan y sefyllfa gytundebol bresennol.

Egwyddorion arweiniol ar gyfer adnoddau

4.5. Ers dechrau'r flwyddyn, mae'r Cyfarwyddwr Portffolio a'r Pennaeth Gweithrediadau wedi ymgysylltu'n helaeth gydag uwch swyddogion ar draws y bartneriaeth i drafod yr heriau a'r opsiynau i alluogi i'r adnoddau gofynnol sicrhau cyflawniad y Cynllun Twf. Datblygwyd cyfres o egwyddorion arweiniol drwy'r trafodaethau hyn, sydd wedi bod yn sail i'r papur hwn:

**Egwyddorion Strategol**

- Mae'r bartneriaeth (y Cynghorau ac Ymgynghorwyr) wedi cytuno ar Weledigaeth Dwf ar gyfer Gogledd Cymru.
- Mae'r bartneriaeth (y Cynghorau ac Ymgynghorwyr) wedi ymrwymo i gyflawni'r Cynllun Twf (4,200 o swyddi a buddsoddiad o £1bn) ac angen dod o hyd i ddatrysiad i alluogi cyflawniad y Cynllun.
- Mae sefyllfa ariannol awdurdodau lleol a phartneriaid AU/AB yn hynod heriol a rhaid ei hystyried.

**Egwyddorion Adnoddau**

- Mae'r Cynllun Twf ar gychwyn cyfnod allweddol o gyflawni dros y 3-4 blynedd nesaf, sef y cyfnod mwyaf dwys o ran defnyddio adnoddau.
- Yn sicr, mae angen darparu adnoddau er mwyn rhoi hyder i'r llywodraeth ac i sicrhau y cedwir gafael ar staff.
- Dylai adnoddau'r Swyddfa Rheoli Portffolio er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf fod yn effeithlon ac effeithiol a lleihau dros amser.
- Dylai'r Swyddfa Rheoli Portffolio barhau i archwilio ffyrdd o sicrhau cyllid ychwanegol a chyflawni incwm o brosiectau'r Cynllun Twf.

Ffynonellau ariannu amgen

4.6. Yn dilyn y trafodaethau, cafodd dwy brif ffynhonnell o gyllid posib ar gyfer y Swyddfa Rheoli Portffolio eu hadnabod a'u dilyn i fyny.

4.7. Fe wnaeth y Swyddfa Rheoli Portffolio ddatblygu a chyflwyno cais Cronfa Ffyniant Gyffredin rhanbarthol . Ni wyddys canlyniad y cais hyd yma.

4.8. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi ysgrifennu at y ddwy lywodraeth yn gofyn am hyblygrwydd i gynyddu swm o arian cyfalaf y Cynllun Twf a ddefnyddir i gefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio o 1.5% i 2%. Byddai'r cynnydd hwn yn golygu bod £1.2m ychwanegol ar gael i gefnogi cyflawniad y Cynllun Twf.

4.9. Nid yw swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cadarnhau yn ysgrifenedig mai penderfyniad i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ydyw ond wrth wneud penderfyniad i gynyddu'r canran, dylai'r Bwrdd ystyried yr angen i gyflawni'r deilliannau cytunedig a buddion y Cynllun Twf y cytunwyd arnynt. Mae'r ddwy lywodraeth hefyd wedi nodi y

byddant eisiau sicrwydd y bydd dyrannu adnoddau yn y modd hwn yn cefnogi cyflawniad gwell, yn ogystal â strwythur sy'n effeithlon a chynaliadwy, gan gyflawni ar gyfer oes cyfan y Cynllun Twf.

Argymhelliad Cychwynnol i gael Adnoddau am 2 Flynedd

4.10. Argymhellir bod y Bwrdd yn cynyddu swm y grant Cynllun Twf sydd ar gael i gefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio o 1.5% i 2% ac yn cynyddu hyn ymhellach os fydd unrhyw arian heb ei ddyrannu ar ddiwedd y broses prosiectau newydd ar gyfer cyllid y Cynllun Twf.

4.11 Byddai'r cyllid yn cael ei gymryd o'r arian cyfredol nad yw wedi'i glustnodi, gan felly leihau'r swm fyddai ar gael i brosiectau newydd. O ganlyniad, ni fyddai unrhyw effaith ariannol ar brosiectau presennol y Cynllun Twf yn sgil y penderfyniad hwn. Er y byddai hyn yn lleihau swm y cyllid sydd ar gael ar gyfer prosiectau newydd o £1.2m, ystyrir fod yr effaith ar y broses yn isel iawn ac y gellir rheoli hyn drwy'r broses.

4.12. Y cynnig yw defnyddio 50% o'r £1.2m ychwanegol i alluogi ymestyn contractau tymor sefydlog presennol yn y tîm i fis Mawrth 2025, gan liniaru'r risg o staff yn gadael yn ystod y flwyddyn nesaf. Os bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn llwyddo i sicrhau arian refeniw ychwanegol, efallai y bydd yr union swm o arian yma a ddefnyddir o'r ffynhonnell hon yn lleihau ac yn cael ei ailddyrannu dros flynyddoedd eraill.

4.13. Bod y Bwrdd yn nodi, wrth gymeradwyo'r cynnydd a nodir yn 2.1, y byddai hyn yn galluogi'r Cyfarwyddwr Portffolio i ymestyn cytundebau cyfnod penodol o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio am 12 mis pellach hyd ddiwedd Mawrth 2025, fodd bynnag ni ellir darparu estyniad pellach hyd nes y byddai ffynonellau cyllid eraill yn cael eu sicrhau.

4.14. Heb sicrhau arian refeniw ychwanegol, byddai angen lleihau'r adnoddau yn y Swyddfa Rheoli Portffolio oddeutu 11 FTE pellach ar gyfer blynyddoedd ariannol 2025-26 a 2026-27. Os na fydd y cais i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn llwyddiannus, bydd angen i'r Bwrdd ystyried yr opsiwn o ofyn am gyfraniadau ychwanegol ar sail unwaith ac am byth gan bartneriaid Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, i alluogi cadw'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Cynllun Twf dros y cyfnod pedair blynedd allweddol hwn. Yn y senario hwn, byddai'r Cyfarwyddwr Portffolio yn cyflwyno papur opsiynau mewn cyfarfod yn y dyfodol. Ni cheisir unrhyw benderfyniad gan y Bwrdd ar gyfraniadau ychwanegol gan partneriaid yn y cyfarfod hwn.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Byddai cynyddu swm grant y Cynllun Twf sydd ar gael i gefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio o 1.5% i 2% yn lleihau swm cyffredinol yr arian i gefnogi prosiectau newydd drwy'r broses prosiectau newydd o £1.2 miliwn.

5.2. Pe byddai'r cais ariannu allanol yn aflwyddiannus, bydd angen adnabod cyllid ychwanegol a bydd angen ystyried gwneud cais am gyllid ychwanegol gan bartneriaid y Bwrdd Uchelgais Economaidd.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae darpariaethau yn GA2 yn golygu oni bai bod y Bwrdd yn sicrhau ffynonellau cyllid eraill, bod unrhyw gyllid ychwanegol sydd ei angen o adnoddau Partner yn fater a gedwir yn ôl i'r Cynghorau a'r Ymgynghorwyr.

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

"Mae'r adroddiad yn gosod y sefyllfa ynglŷn a diwedd yr ariannu CSE ynghyd a chyd destun risg yr atebion. Mae hefyd yn tanlinellu rôl y Partneriaid yn canfod datrysiad i'r her wrth fynd ymlaen sydd yn adlewyrchu GA2."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

"Mae modd defnyddio cyfran o'r grant Cynllun Twf o £240miliwn er mwyn cyfrannu at gostau rhedeg y Swyddfa Rheoli Portffolio. Ar hyn o bryd, rydym yn cynllunio ar sail y bydd 1.5% o'r grant yn cael ei ddefnyddio am y pwrpas yma, a byddai cynyddu'r gyfradd i 2% yn rhyddhau £1.2miliwn ychwanegol tuag at gostau rhedeg y Swyddfa. Canlyniad hynny fydd gostyngiad o £1.2miliwn cyfatebol yn yr arian cyfalaf fydd ar gael dros oes y Cynllun Twf. Credaf fod yr adroddiad yn egluro'r sefyllfa yn glir, cywir a theg; mae'r sefyllfa bresennol yn golygu fod Uchelgais Gogledd Cymru yn wynebu risg o golli swyddogion allweddol ar gyfnod tyngedfennol ac rwyf felly'n cefnogi'r penderfyniad a geisir."